Meysydd Gwaith...

Carcharorion

Mae staff y Gwasanaeth Prawf sydd wedi eu lleoli mewn carchardai'n cynorthwyo gyda chynllunio gweithrediad dedfrydau ac yn cydgysylltu â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) yn yr ardal lle bydd y carcharor ar ôl ei ryddhau. Mae carcharorion sydd wedi derbyn dedfryd o flwyddyn neu fwy yn cael eu harolygu gan y GPC wedi iddynt gael eu rhyddhau ar drwydded a rhaid iddynt gadw at amodau penodol eu trwydded. Os na wnânt hynny, cânt eu galw'n ôl i'r carchar.

Dioddefwyr

Mae staff y Gwasanaeth Prawf yn gweithio gyda'r rhai sydd wedi dioddef oherwydd troseddau treisgar neu rywiol pan fo'r troseddwr wedi derbyn dedfryd o flwyddyn neu fwy yn y carchar. Maent yn dweud wrth ddioddefwyr sut mae'r ddedfryd yn mynd ac efallai y byddant yn holi'r dioddefwyr ynglŷn â pha amodau i'w gosod wrth ryddhau troseddwyr.

Llety Cymeradwy

Pwrpas sylfaenol llety cymeradwy yw diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr sy'n debygol iawn o niweidio eraill. O'r herwydd, mae mwyafrif y gwelyau'n cael eu rhoi i droseddwyr sydd wedi eu rhyddhau o'r carchar, rhai ohonynt ar ôl bwrw dedfryd am droseddau difrifol iawn. Mae'r arolygu dwys yn debygol o gynnwys mesurau diogelwch megis Teledu Cylch Cyfyng a systemau larwm, cyrffyw safonol o 11pm hyd 6am a chyfundrefn graidd sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol.

Partneriaid

Mae'r GPC yn cydweithio'n agos ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, yn cynnwys yr heddlu a'r carchardai. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r tair asiantaeth hyn gydweithio yn achos y troseddwyr mwyaf peryglus, yn cynnwys troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw, er mwyn rheoli'r gwaith o'u harolygu yn y gymuned. Mae'r gwaith hwn yn dod o dan MAPPA - Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd.

Mae llawer o staff y Gwasanaeth Prawf wedi eu secondio i'r timau troseddu ieuenctid sy'n gyfrifol am droseddwyr sydd o dan 18 oed. Mae'r GPC yn cydweithio gyda phartneriaid sydd yn fudiadau gwirfoddol nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth a phartneriaid o'r sector preifat (masnachol).

Os hoffech gael manylion pellach,
ymwelwch â'n gwefan

www.probation.homeoffice.gov.uk

Os hoffech gael manylion pellach am y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol, ewch i'r wefan

www.noms.homeoffice.gov.uk

NPD/007/2005.

GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL

NATIONAL PROBATION SERVICE

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

dros Gymru a Lloegr

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

National Offender Management Service

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol dros Gymru a Lloegr

Pwy ydym ni?

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol dros Gymru a Lloegr (GPC) yn asiantaeth gweinyddu'r gyfraith sy'n arolygu troseddwyr yn y gymuned – y rhai sydd o dan orchymyn llys a'r rhai sydd wedi eu rhyddhau o'r carchar ar drwydded.

Amcanion y GPC yw:

- Amddiffyn y cyhoedd
- Lleihau aildroseddu
- Cosbi troseddwyr yn briodol yn y gymuned
- Sicrhau bod troseddwyr yn ymwybodol o effeithiau troseddu ar ddioddefwyr a'r cyhoedd
- Adsefydlu troseddwyr

Mae'r GPC yn gyfrifol am 42 ardal brawf, wedi eu rhannu'n 10 rhanbarth ledled Cymru a Lloegr. Mae'r pencadlys, y Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol, yn Llundain.

Mae'r GPC, ynghyd â'r Gwasanaeth Carchardai a sefydliadau eraill sydd yn gweithio gyda throseddwyr a gafwyd yn euog, yn rhan o Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), sydd yn un o adrannau'r Swyddfa Gartref. Gwaith NOMS yw arwain a chydlynu'r holl wasanaethau sy'n gweithio gyda throseddwyr er mwyn sicrhau'r gostyngiad mwyaf posibl mewn aildroseddu.

Yr hyn a wnawn

Mae'r GPC yn arolygu yn y gymuned tua 200,000 o oedolion sydd wedi troseddu. O'r rhain, mae 90% yn ddynion ac oddeutu 9% yn dod o leiafrifoedd ethnig. Mae gan y GPC tua 20,000 o staff yn gweithio ledled Cymru a Lloegr. Mae'r staff proffesiynol sy'n gweithio gyda throseddwyr wedi eu hyfforddi hyd at lefel uchel.

Mae'r gwasanaeth prawf yn ymwneud â dynion a merched dros 18 oed. Mae 70% ohonynt dan orchymyn cymunedol a wnaed gan y llysoedd a 30% wedi'u rhyddhau o'r carchar ar drwydded.

Gorchymyn Cymunedol

Gall llysoedd roi dedfryd o Orchymyn Cymunedol gydag un neu fwy o Ofynion i droseddwyr. Dyma'r Gofynion:

- Gwaith Di-dâl – nifer penodol o oriau o waith i'w gyflawni er budd y gymuned
- Gweithgaredd - yn cynnwys mynychu canolfan gyffuriau gymunedol, addysg a sgiliau sylfaenol neu wneud iawn i ddioddefwyr
- Rhaglen - i grŵp neu unigolyn i fynd at wraidd ymddygiad megis troseddu cyffredinol, trais, troseddu'n rhywiol, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, trais yn y cartref a gyrru dan effaith alcohol
- Gweithgaredd Gwaharddedig – gwaharddiad ar weithgaredd megis mynd i dŷ tafarn neu fynychu gêm bêl droed
- Cyrffyw - wedi ei gefnogi gan fonitro electronig (tagio)
- Cau Allan – gwaharddiad rhag mynd i fan neu fannau penodol am gyfnod hyd at ddwy flynedd
- Preswylio – byw mewn man a nodir, boed hynny'n hostel wedi ei chymeradwyo neu'n gyfeiriad preifat
- Triniaeth Iechyd Meddwl – dan gyfarwyddyd meddyg neu seicolegydd
- Ailsefydlu oherwydd Cyffuriau – wedi ei anelu at leihau neu ddileu dibyniaeth ar gyffuriau
- Triniaeth Alcohol – wedi ei anelu at leihau neu ddileu dibyniaeth ar alcohol
- Goruchwylio – mynychu apwyntiadau cyson gyda swyddog prawf a fydd yn gwneud gwaith gyda'r troseddwr er mwyn newid agweddau ac ymddygiad
- Canolfan Bresenoli - (i droseddwr rhwng 18 a 24 oed)

Y barnwr neu'r ynadon sydd yn penderfynu ar nifer a math y Gofyniadau.

Mae'r Gofyniadau hyn ar gael hefyd i lysoedd wrth iddynt ddedfrydu troseddwyr i Orchymyn Dedfryd Ohiriedig.

Adroddiadau cyn Dedfrydu (PSRau)

Gall y dedfrydwyr ofyn i'r GPC baratoi adroddiad cyn dedfrydu (PSR). Gellir ei gyflwyno ar lafar ond fel arfer mae'n ysgrifenedig. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu amgylchiadau'r drosedd, y ffactorau a oedd ynghlwm â'r drosedd ac unrhyw faterion a fo'n gysylltiedig â'r perygl y mae'r cyhoedd yn ei wynebu oherwydd y troseddwr. Bydd yr adroddiad yn cynnig dedfryd briodol ond y llys fydd yn penderfynu. Mae'r GPC yn cynhyrchu tua 250,000 o PSRau ysgrifenedig bob blwyddyn.